

Ôl-ddyledion – benthycha un i un

Os ydych yn hwyr yn gwneud taliadau ac wedi derbyn hysbysiad ôl-daliadau dyma rywfaint o wybodaeth bwysig i'ch helpu.

Peidiwch ag anwybyddu'r broblem.

- **Gweithiwch allan faint o arian sy'n ddyledus gennych.** Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi wneud rhestr o bawb y mae arnoch arian iddynt. Gall cynghorydd dyledion eich helpu.
- **Cysylltwch â'r llwyfan benthycha un i un a drefnodd eich benthychiad.** Dywedwch wrthynt eich bod yn cael problemau. Efallai y gallant drafod opsiynau ar gyfer ad-dalu'r hyn sy'n ddyledus gennych.
- **Ceisiwch help a chyngor am ddim.** Mae eich hawliau a'ch opsiynau'n dibynnu ar y math o gytundeb, a gall y gyfraith fod yn gymhleth. Gallwch gael help a chyngor annibynnol am ddim gan nifer o sefydliadau - trowch drosodd am fanylion.
- **Talwch ddyledion â blaenoriaeth yn gyntaf.** Mae mwy o frys i dalu rhai dyledion nag eraill am y gall canlyniadau peidio â'u talu fod yn fwy difrifol nag ar gyfer dyledion eraill – e.e. morgais, rhent, treth gyngor/ardrethi neu ôl-ddyledion nwy neu drydan. Gall cynghorydd dyledion eich helpu i lunio cyllideb i reoli eich arian.

- **Meddyliwch yn ofalus cyn benthych arian i ad-dalu dyledion.** Ceisiwch gyngor cyn benthych yn erbyn eich cartref – byddwch yn talu mwy yn y pen draw a byddwch yn wynebu risg o golli eich cartref.
- **Mae'n bosibl y gallwch ofyn i lys roi mwy o amser i chi ad-dalu dyled.** Ond dim ond o dan rai amgylchiadau. Siaradwch â chynghorydd dyledion cyn ystyried cymryd camau mewn llys. Cadwch gopïau o lythyrau a negeseuon e-bost rhag ofn y bydd eu hangen ar y llys.

Gallai gwneud dim wneud pethau'n waeth

Gallech dalu mwy mewn llog a thaliadau yn y pen draw. Gallai taliadau a fethwyd effeithio ar eich statws credyd a'i gwneud yn fwy anodd i chi gael credyd yn y dyfodol. Os byddwch yn parhau i beidio â gwneud taliadau gallai hyn arwain at gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn i'ch gorfodi i ad-dalu'r arian sy'n ddyledus neu ddychwelyd nwyddau sydd wedi'u hurbwrcasu.

Trowch drosodd am fanylion am ble i gael help a chyngor.

Help a chyngor

Gallwch gysylltu â'r sefydliadau dielw hyn i gael cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar ddyled, neu i gael manylion am ble i gael cyngor o'r fath yn eich ardal chi.

Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Er mwyn cael adnoddau arian, gwybodaeth a chyngor diduedd a hawdd eu deall am ddim, ewch i www.moneyadvice.service.org.uk neu ffoniwch **0300 500 5000** i siarad â Chynghorydd Arian

Money Advice Scotland

Os ydych yn byw yn yr Alban, ffoniwch **0141 572 0237** neu ewch i www.moneyadvicescotland.org.uk i gael manylion cyswllt am gyngor ar ddyled yn eich ardal leol

Advice NI – gwasanaeth Gweithredu ar Ddyled Gogledd Iwerddon

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ffoniwch **0800 917 4607**, anfonwch neges e-bost i debt@adviceni.net neu ewch i www.debtaction-ni.net i gael cyngor ar ddyled

AdviceUK

Mae aelod-ganolfannau yn cynnig cyngor ar ddyledion gan gynnwys cyngor arbenigol i gymunedau lleiafrifol a phobl ag anableddau – www.adviceuk.org.uk neu ffoniwch **0300 777 0107**

Cristnogion yn erbyn Tlodi (CAP)

I gael cyngor ar ddim ar ddyled yn eich cartref, edrychwch i weld pa godau post a gwmpesir yn www.capuk.org ac yna ffoniwch **0800 328 0006**

Cyngor ar Bopeth

I gael cyngor a gwybodaeth am ddyled a phynciau eraill, ewch i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol (mae'r cyfeiriad yn y llyfr ffôn) neu ewch i www.adviceguide.org.uk

Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ffoniwch **0808 808 4000** neu ewch i www.nationaldebtline.org i gael cyngor a gwybodaeth am ddyled

Elusen Ddyled StepChange

I gael cyngor ar ddyled ledled y DU ffoniwch **0800 138 1111** neu ewch i www.stepchange.org

Sefydliadau defnyddiol eraill

Cyngor Cyfreithiol Sifil

Gallwch gael cyngor cyfreithiol os yw eich cartref mewn perygl. Ewch i www.gov.uk/legal-aid neu ffoniwch **0345 345 4345**

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Os oes gennych gŵyn na allwch ei datrys gyda'ch benthyciwr, efallai y gall Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol eich helpu - ffoniwch **0300 123 9123** neu **0800 023 4567** neu ewch i www.financial-ombudsman.org.uk